

national
roman legion
museum
amgueddfa
lleng rufeinig
cymru

cyfleoedd i ysgolion cynradd

2014-2015

national
museum
amgueddfa
wales
cymru





Amdanom ni

Bydd ymweliad ag Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru yn llawn hwyl, yn ysbrydoli ac yn gofiadwy. Rydym yn cynnig rhaglen gyffrous o weithdai a digwyddiadau trawsgwricwlaidd sy'n annog sgiliau cyfathrebu, datblygiad creadigol, gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd. Dewch i weld sut oedd milwyr y fyddin Rufeinig rymus yn byw 2,000 o flynyddoedd yn ôl.

Archebu a chynllunio

Rhaid archebu ymweliadau grŵp ymlaen llaw

Mae llefydd yn brin, felly archebwch mewn da bryd i osgoi cael eich siomi. Mae llawer o alw am sesiynau wedi'u hwyluso, felly rhaid archebu pob sesiwn wedi'i hwyluso ymlaen llaw. Ar ôl i chi archebu, byddwn yn anfon cadarnhad ysgrifenedig, canllawiau iechyd a diogelwch ac amserlen eich diwrnod atoch.

Gwybodaeth iechyd a diogelwch

Mae gwybodaeth i'ch helpu i gwblhau asesiad risg ar www.amgueddfacymru.ac.uk/addysg/rhufeinig.

Trefniadau bwyta

Wrth archebu'ch ymweliad, gallwch gadw lle i fwyta pecyn cinio os bydd ar gael ond cofiwch fynd â'ch sbwriel adre gyda chi.

Siop

Cofiwch hefyd am ein siop sy'n gwerthu nwyddau a chofroddion am bris teg a pheiriant lle gall yr athrawon brynu diodydd poeth.

Mae mynediad
AM DDIM
diolch i nawdd
Llywodraeth
Cymru

Pris sesiynau wedi'u hwyluso

Codir tâl am sesiynau dan arweiniad staff yr Amgueddfa sy'n cyd-fynd â'r cwricwlwm. Mae pedwar pris gwahanol (heb gynnwys TAW):

sesiwn hyd at awr ar gyfer hyd at 15 disgybl – £27	sesiwn hyd at awr ar gyfer hyd at 35 disgybl – £42
sesiwn hyd at hanner diwrnod ar gyfer hyd at 15 disgybl – £47	sesiwn hyd at hanner diwrnod ar gyfer hyd at 35 disgybl – £77

Ar gyfer ysgolion yng Nghymru: os yw'r Llywodraeth, yn unol â'r ffigurau diweddaraf, yn ystyried fod mwy nag 20% o ddisgyblion eich ysgol yn cael prydau ysgol am ddim, ni chodir tâl am y sesiynau. Mae grwpiau Anghenion Addysgol Arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion yn gymwys i gael sesiynau am ddim hefyd.

Anfonir anfoneb i'ch ysgol ar ôl diwrnod yr ymweliad. Os byddwch yn canslo ar ôl 10am y diwrnod cyn y sesiwn neu os byddwch yn hwyr ac yn colli'ch sesiwn, rhaid talu'r anfoneb. Nid yw'r prisiau'n cynnwys TAW ond mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn gallu ei hawlio'n ôl.

Manylion cyswllt

Amgueddfa Llang Rufeinig Cymru
Stryd Fawr, Caerllion, NP18 1AE

Baddonau'r Gaer
Stryd Fawr, Caerllion, NP18 1AE

(029) 2057 3546

addysg.rhufeinig@amgueddfacymru.ac.uk




@RomanCaerleon



Amgueddfa Llang Rufeinig Cymru

www.amgueddfacymru.ac.uk/rhufeinig



Ger dinas Casnewydd, 20 munud o'r M4/Pont Hafren. O ffordd ymadael ddwyreiniol cyffordd 26 yr M4/ffordd ymadael orllewinol cyffordd 25, dilynwch yr arwyddion i Gaerllion.

Am fersiwn print bras o'r daflen hon, ffoniwch (029) 2057 3240

Y Profiad Rhufeinig

Gan ddibynnu ar faint o amser sy'n sbâr gennych, gallech ddewis o blith y gweithgareddau canlynol:

- dysgu am fywyd Rhufeinig trwy sesiwn chwarae rôl wedi'u hwyluso
- cael blas ar fywyd Llangilwr yn ein hailgread o Ystafell y Barics a gwisgo arfwisg plentyn
- archwilio gwrthrychau Rhufeinig go iawn yn oriel yr Amgueddfa
- galw heibio Baddonau'r Gaer sydd dan ofal Cadw
- mwynhau'r Amffitheatr a'r Barics.

Sesiynau Tymhorol

Saturnalia: Nadolig Rhufeinig?

Addas ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a CA2

Teithiwch yn ôl mewn amser i ymweld â Rhufeiniwr sy'n paratoi ar gyfer gŵyl ganol gaeaf Saturnalia. Dysgwch am yr ŵyl Rufeinig a rhannu traddodiadau canol gaeaf heddiw.

Gweithgaredd 1 awr dan arweiniad staff yr Amgueddfa. £27 am hyd at 15 disgybl, £42 am hyd at 35 disgybl. 1-19 Rhagfyr 2014.

Cerdded gyda'r Rhufeiniaid

Addas ar gyfer CA2 a 3

Blas ar yr Amffitheatr, y Barics a'r Baddonau gyda'ch tywysydd Rhufeinig eich hun. Dysgwch am fywyd yn y gaer bron i 2,000 o flynyddoedd yn ôl.

Diwrnod llawn o weithgareddau dan arweiniad staff yr Amgueddfa. £47 am hyd at 15 disgybl, £77 am hyd at 35 disgybl. 8-12 Mehefin 2015.





Sesiynau wedi'u Hwyluso

Y Cyfnod Sylfaen

Teganau a Gemau

Dewch i weld pa gemau oedd plant Rhufeinig yn eu hoffi ac edrych ar deganau drwy'r oesau i weld faint maen nhw wedi newid gydag amser.

Cyfnod Allweddol 2

Arfau ac Arfwisgoedd!

Dewch i gael blas ar fywyd milwr yn y fyddin Rufeinig. Yn y sesiwn estynedig hon yn ein hailgread o Ystafell Farics, bydd hwylusydd mewn gwisg yn dangos yr arfau ac arfwisgoedd y Rhufeiniaid i ymladd y Celtiaid. Caiff disgyblion hefyd wisgo atgynrychiadau o arfwisg plentyn.

Sesiynau chwarae rôl wedi'u hwyluso*

Teithiwch yn ôl drwy'r oesau i ddarganfod mwy am gymdeithas Rufeinig drwy gymryd rhan mewn sesiwn chwarae rôl a gwisgo fyny wedi'i hwyluso. Cewch gymharu bywydau'r Rhufeiniaid â'n bywydau ni heddiw.

Grammaticus – Ystafell Ddosbarth Rufeinig

Sesiwn drawsgwricwlaidd sy'n rhoi cyfle i chi ddysgu sut oedd y Rhufeiniaid yn addysgu eu plant. Trwy gyfrwng iaith, rhifedd a llythrennedd, bydd disgyblion yn cael cyfle i ddysgu am y gymdeithas Rufeinig dan lygaid barcud athro Rhufeinig.

Tachwedd 3-28 2014. Mawrth 16-27 a Mehefin 15-26 2015.

Meistri a Chaethweision

Ymennydd paun, pathewod wedi'u llenwi ac wystrys – dyna rai o'r seigiau sydd ar y fwydlen mewn gwledd Rufeinig. Bydd disgyblion yn chwarae rhan y meistr cyfoethog neu'r caethwas tlawd, ac yn cael blas ar ddau begwn eithaf cymdeithas.

Medi 10-Hydref 3 2014. Ionawr 5-30, Ebrill 13-Mai 8 a Mehefin 29-Gorffennaf 17 2015.

Medicus – Meddyginiaeth Rufeinig

Meddyginiaethau llysieuol, trychu coes neu fraich i ffwrdd, pwythau blew ceffyl – dyna rai o driniaethau'r meddyg Rhufeinig. Dewch i ddysgu mwy am feddygaeth Rufeinig a chyfraniad y duwiau at wella cleifion, mewn sesiwn ryngweithiol.

Hydref 6-24 2014. Chwefror 2-Mawrth 13, Mai 11-Mehefin 5 2015.

Mae'r holl weithgareddau uchod yn sesiynau 1 awr dan arweiniad staff yr Amgueddfa. Pris pob sesiwn yw £27 am hyd at 15 disgybl, £42 am hyd at 35 disgybl. Un sesiwn fesul ymweliad. Ffoniwch am ddyddiadau.

*Yn ogystal â'r sesiwn chwarae rôl, bydd cyfle i wisgo atgynhyrchiad o arfwisg plentyn a dysgu am fywyd milwr Rhufeinig yn ein hailgread o ystafell farics.

AM DDIM:
DAN
ARWEINIAD
ATHRO



Cynorthwyo athrawon

Adnoddau

Ewch i'n gwefan i weld pob math o adnoddau i ategu'ch ymweliad â'r Amgueddfa gan gynnwys taflenni gweithgareddau, llwybrau a phecynnau i athrawon – i'w defnyddio yn yr amgueddfa neu'r ysgol: www.amgueddfacymru.ac.uk/addysg/rhufeinig.



Pecyn Archwilio: yr Amffitheatr a'r Barics

Mae'r atgynhyrchiad hwn o fag ysgol Rhufeinig yn cynnwys cyfarwyddiadau, gwybodaeth a gwrthrychau er mwyn helpu eich grŵp i ddeall sut oedd y Rhufeiniaid yn defnyddio'r amffitheatr a'r barics. Mae'r gwrthrychau'n cynnwys ceiniogau Rhufeinig, caltrops a sbyngau ar brennau. Gofynnwch yn y Dderbynfa wrth gyrraedd. Rhaid rhoi ernes os am fenthg y bag (cerdyn credyd/siec/£30 o arian parod).

Canllaw i Athrawon

Mae *A Teachers' Guide to Roman Caerleon* yn adnodd cyffrous sy'n eich helpu i ddod â hanes henebion yn fyw, yn enwedig y Barics. Mae'n cynnwys llyfryn esboniadol am gefndir y gaer, cwestiynau posibl, atebion a gweithgareddau. Mae hefyd yn cynnwys lluniau lliw A3 a llinyn mesur Rhufeinig. Pris: £24.45 gan gynnwys postio.

Diwrnodau Hyfforddiant i Athrawon

Oes angen rhywfaint o ysbrydoliaeth arnoch i addysgu am y Rhufeiniaid? Sut mae cael y gorau o ymweliadau ag oriel yr Amgueddfa neu'r amffitheatr? Dyma gyfle i chi gydweithio â hwylyswyr profiadol yr Amgueddfa i ddatblygu'ch sgiliau a'ch gwybodaeth, fel bo'r ysgol yn manteisio i'r eithaf ar yr ymweliad – ar y diwrnod ei hun a nôl yn yr ysgol. Ffoniwch am ddyddiadau.

Yn eich ysgol

Ymchwiliad Bylbiau'r Gwanwyn i Ysgolion

Plannwch fylbiau ar dir eich ysgol er mwyn astudio newid yn yr hinsawdd. Ymunwch â'r ymchwiliad hwn sy'n cael ei gynnal ledled y DU, a helpu i wella sgiliau rhifedd a gwyddoniaeth yr un pryd. Gwnewch gais erbyn 25 Gorffennaf 2015 er mwyn dechrau'r project ym mis Medi 2015

www.amgueddfacymru.ac.uk/scan/bylbiau.

